CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION
IONAWR 2013

DYDDIAD	Nos Fercher, 16eg Ionawr
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda
AELODAU'N BRESENNOL	Gwilym V.Thomas (Cad), Michelle Williams, Nerys Evans, Rhys Owen, Meurig Williams, Gwilym L.Williams, Jason Hunt
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams, Clerc

1.	**Croeso**
2.	**Ymddiheuriadau** Elin Evans, Elwyn Jones
3.	**Datgan Buddiant**
4.	**Cadarnhau cofnodion** Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, yn gywir.
5.	**Materion i'w trafod:** a. NE – cynnig ffurfiol i beidio dod i Ganolfan Llanwnda eto nes bydd y broblem draenio wedi'i setlo. Pawb yn cytuno. b. EE – dwr ar y ffordd o gwmpas Felinwnda/Saron – poeni fod 'na gulvert wedi cau rhwng Rhosgawen ca Ysgol Felinwnda – gofyn am gael cameras. Tyllau yn y ffyrdd ymhobman. c. Cais gan Mr.Arwel Jones i geisio cael cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Siop Gwyled. Trafodwyd y mater, a soniwyd fod gwr busnes lleol wedi datgan diddordeb ac yn ystyried y mater, felly rydym fel cyngor yn gadael i'r mater fod ar hyn o bryd. Efallai bydd angen trafod eto yn y dyfodol. d. Cais gan Mr.a Mrs.Melfyn Jones i bwyso ar Gyngor Gwynedd i ystyried wneud gwaith ychwanegol ar yr afon – gofyn i gael cyfarfod efo swyddogion i drafod ymhellach. Anfon llythyr i Gyngor Gwynedd yn datgan fod yr aelodau yn gresynu'n arw am y sefyllfa, a pwyso arnynt i weithredu ar fyrder. e.
6.	**Derbyn Adroddiadau** Lein Bryngwyn – angen trafod taliad i I.T.Davies – cytuno i dalu rhan-daliad £12,000 erbyn 1af Chwefror. Caeau Chwarae Rhosgadfan a Rhostryfan. Adroddodd y clerc fod pwyllgor cae chwarae Rhosgadfan yn ymddangos yn weithgar iawn, ac yn trefnu digwyddiadau cyson i godi arian. Adroddodd hefyd fod gwaith yn cychwyn ar gae chwarae Rhostryfan yr wythnos nesa, gyda'r offer yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.
7.	**Is-bwyllgorau**

8.	**Materion Ariannol** Cyfri Cadw: Cyfri Siec: Taliadau: Cyflog/costau clerc – mis Rhagfyr a Ionawr Arian parod Zurich – yswiriant blynyddol Ceisiadau nawdd i'w trafod ym mis Chwefror	 17,127.97 3328.97 1034.14 500.00 1058.21

9.	**Materion Cynllunio** Wedi cael caniatad i ychwanegu at y fynwent. Cwynion am Gadlys. Ymgynghoriad ar bolisi Tyrbeini Gwynt – oherwydd natur yr amgylchedd naturiol yma yn yr ardal – aneffeithiol, hagru'r tirwedd, dim cefnogaeth gan y gymuned leol. C12/0854/24/LL – ail gyflwyno cais am 4 ty dros y ffordd i Gapel Gorffwysfa – gwrthwynebu ar yr un sail a'r dau dro diwethaf C12/1648/24/RC – diddymu cytundeb cyfreithiol sydd yn cyfyngu'r eiddo ar gyfer person sydd wedi'i gyflogi mewn amaethyddiaeth – Tyddyn Derwen (Tyddyn Bach), Dinas, Llanwnda – dim sylw.
10.	**Gohebiaeth:** a. Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol – dod i ben 31.01.13 b. Ymgynghoriad Cyngor Iechyd Cymunedol – crynodeb o'r ymatebion
11.	**Materion mis nesa** a. MW – Rhes Ganol – lôn wedi'i malurio b. RhO- tyllau ar y ffyrdd c. NE – mater cynllunio – dwy adwy wedi'u hagor yn Rhos Isaf, cais cynllunio i mewn ond does dim penderfyniad wedi'i wneud. Pasio hwn ymlaen i Aeron M.Jones i'w drafod efo'r swyddogion. d. GVT – dau dy yn Gwelfor yn wag ers deng mis. e. GVT – arwydd ger Bodfan ddim yn gweithio. f. GVT – bwlch yn y wal yn Allt Pen y Gwylwyr
	Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm